SWYDDOGOL

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Perfformiad Strategol** |
| **Lleoliad:** | **Pencadlys SCC119** |
| **Dyddiad:** | **7 Gorffennaf 2025** |
| **Amser:** | **9.30am–12.30pm** |

| | |
|---|---|
| **Yr Aelodau:** | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn<br>Y Prif Gwnstabl Dros Dro, Ifan Charles<br>Y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro, Gary Phillips<br>Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro, Andrew Edwards<br>Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Carys Morgans<br>Prif Swyddog Cyllid Dros Dro Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Nicola Davies<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Alison Perry<br>Pennaeth Strategaeth a Pholisi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Claire Bryant |
| **Hefyd yn bresennol:** | Pennaeth yr Uned Gwella Gwasanaethau, yr Uwch-arolygydd Dros Dro, Mark McSweeney<br>Swyddog Staff, yr Arolygydd Gemma Starkey<br>Cymorth Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Rhys Jones<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Michael Thomas<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Liz Rijnenberg<br>Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu, y Cynghorydd Wyn Thomas |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cyfarwyddwr Cyllid, Edwin Harries<br>Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, Linda Williams |

## 1. Ymddiheuriadau a chyflwyniadau

Croesawodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys aelodau o'r Panel Heddlu a Throseddu a oedd yn bresennol fel arsylwyr.

Nodwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu rolau dros dro'r prif swyddogion yn dilyn ymddiswyddiad y Prif Gwnstabl blaenorol, Dr Richard Lewis, a'r gweithgaredd recriwtio sy'n mynd rhagddo i benodi Prif Gwnstabl.

Diolchodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'r Uwch-arolygydd Dros Dro, Louise Harris hefyd am ei gwaith yn yr Uned Gwella Gwasanaethau, a dymunodd yn dda iddi yn ei rôl newydd yn Uned Reoli Sylfaenol Sir Benfro. Croesawodd y

Comisiynydd yr Uwch-arolygydd Dros Dro, Mark McSweeney yn ei ôl i'r heddlu wedi iddo dreulio amser i ffwrdd gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, a dymunodd yn dda iddo yn yr Uned Gwella Gwasanaethau.

Cyfeiriodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu at ddigwyddiad cadarnhaol Gwobrau'r Heddlu a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol, a llongyfarchodd yr holl enillwyr ac enwebeion.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gofnod gwir a chywir.

## 2. Yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r cam gweithredu | Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|
| SPB10 | Gwerthusiad o Ymgyrch Soteria i'w rannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona. | Wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol. |
| SPB011 | Yr heddlu i gadarnhau'r broses ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu a chael mynediad i gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. | Wedi'i gwblhau.<br>Wedi'i rannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. |
| SPB012 | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i siarad â chynghorau tref a chymuned i gasglu adborth ynghylch eu rhyngweithiadau â thimau plismona ac atal bro. | Ar y gweill. |
| SPB013 | Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona. | Wedi'i gwblhau.<br>Eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd y Bwrdd Plismona. |

**Camau gweithredu: Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i roi adborth ar y cam gweithredu a godwyd gan y Panel Heddlu a Throseddu parthed y broses ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu sydd am gael mynediad i gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu.**

**Camau gweithredu: Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yr heddlu i gysylltu â'r Dirprwy Prif Gwnstabl ynghylch cynnal arolygon o**

**gynghorau cymuned i geisio deall lefelau hyder ar hyn o bryd ac ymhen chwe mis.**

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod wedi cael gwybod bod cyfarfodydd diweddar yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wedi'u canslo, a cheisiodd esboniad gan y prif swyddogion am y rhesymau dros hyn.

**Cam gweithredu: Prif swyddogion i geisio eglurder ynghylch canslo cyfarfodydd diweddar yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn yr heddlu.**

## 3. Perfformiad yr heddlu

### a) Adroddiad ar berfformiad yr heddlu

Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y dylid creu dau adroddiad ar berfformiad yr heddlu – un a fyddai ar gael i'r cyhoedd, a'r llall at ddefnydd mewnol. Lluniwyd yr adroddiad er mwyn cefnogi'r Bwrdd Perfformiad Strategol a nodwyd ei fod yn cynnwys data ar feysydd a nodwyd fel metrigau craidd rheolaidd, fel rhan o Gynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029 y Comisiynydd. Nodwyd bod y data yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu cyfnod blwyddyn ariannol 2024–2025 (Ebrill 2024–Mawrth 2025), gan gymharu, lle bo'n bosibl, â'r data o flwyddyn ariannol 2023–2024 (Ebrill 2023–Mawrth 2024) oni nodir yn wahanol.

Tynnwyd y data o systemau heddlu a systemau cenedlaethol amrywiol, ac yr oeddent yn gywir ar adeg yr echdynnu. Darparwyd rhywfaint o'r data yn yr adroddiad hwn gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Nodwyd bod rhaid rhoi sylw i'r ffaith bod Niche wedi'i gyflwyno ym mis Mai 2023, a'r effaith a gafodd y newid hwn ar adrodd ar ddata.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Dros Dro drosolwg o flaenoriaethau'r heddlu a'r hyn a oedd yn parhau i fod yn rhan o raglen Model Gweithredu'r Heddlu, o dan oruchwyliaeth uwch noddwyr.

Gwnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu sylwadau cadarnhaol ar ymweliad diweddar a wnaed ganddo â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu, lle'r oedd y gyfradd ateb ar gyfer galwadau 101 rhwng 2 a 3 eiliad.

Nodwyd mai'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer 101 oedd bod uchafswm o 10% yn rhoi'r gorau i'w galwadau. Y gyfradd o unigolion a oedd yn rhoi'r gorau i'w galwadau 101 â'r heddlu ym mis Ebrill 2025 oedd 5.9%, o'i gymharu â chyfradd o 33.09% ym mis Ebrill 2024.

Bu'r bwrdd yn trafod y cynnydd yn y galw y byddai'r heddlu yn ei weld dros gyfnod yr haf. Bu'r bwrdd yn trafod trosiant staff yng Nghanolfan Gyfathrebu'r Heddlu a'r ffaith bod y gyfradd ymadael yn yr adran yn uwch o'i gymharu ag adrannau eraill o'r heddlu. Holodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a oedd proses recriwtio wedi'i chynllunio ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu.

Dywedodd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro fod proses recriwtio wedi'i chynllunio ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a nodwyd y manteision bod staff y ganolfan yn dod yn hollgymwysiedig ac yn gallu newid rhwng danfon i alwadau digwyddiadau a thrin galwadau.

Dywedodd Pennaeth Strategaeth a Pholisi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu hefyd fod ymgyrch recriwtio Gymraeg benodol ar y gweill ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu ar hyn o bryd.

**Camau gweithredu: Amserlen proses recriwtio ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w darparu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

Bu'r bwrdd yn trafod amseroedd ymateb o fewn yr heddlu, a'r ffaith bod amseroedd ymateb yn amrywio rhwng gwahanol ardaloedd. Nodwyd bod amseroldeb ymateb yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio'r gwahaniaeth amser rhwng statws 3 (amser y cofnodwyd y digwyddiad cychwynnol) a statws 6 (amser cyrraedd y digwyddiad). Nodwyd bod dadansoddiad wedi datgelu bod sawl allanolyn yn y data a oedd yn effeithio ar gyfraddau ymateb cyffredinol yr uned reoli sylfaenol / yr heddlu.

Fel heddlu, roedd y data'n dangos mai'r gyfradd ymateb ar unwaith ar gyfer 2024–2025 ar gyfartaledd oedd 15.8 munud, a oedd o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth o 20 munud. Nodwyd bod y gyfradd ymateb hon hefyd yn well na'r cyfartaledd, o'i gymharu â'r ffigwr o 16.6 munud ar gyfer 2023–2024, gyda phob ardal, ac eithrio Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan, yn cyrraedd o fewn y gofyniad o 20 munud ar gyfartaledd.

Cafwyd trafodaeth bellach am yr amser ymateb ar unwaith yn ystod 2020–2025 ar gyfer 'troseddau cam-drin domestig' ar gyfartaledd, a oedd o fewn y cytundeb lefel gwasanaeth, sef 17.9 munud. Nodwyd bod hwn yn ostyngiad bach iawn yn yr amser presenoldeb o'i gymharu â 2023–2024, sef 17 munud. Ceredigion oedd yr unig uned reoli sylfaenol, yn ystod 2024–2025, ag amser ymateb ar unwaith ar gyfartaledd uwchlaw'r cytundeb lefel gwasanaeth o 20 munud.

Darparodd y Prif Gwnstabl fanylion ynghylch perfformiad uniongyrchol a blaenoriaethol o ran cam-drin domestig yn dilyn adroddiad a gwblhawyd gan yr heddlu.

**Camau gweithredu: Adroddiadau perfformiad uniongyrchol a blaenoriaethol ar gam-drin domestig i'w rhannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

Bu'r bwrdd yn trafod yr Uned Ymateb Rhithwir i Gam-drin Domestig a throsglwyddiadau byw rhyngddi â Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Nodwyd bod darn o waith wedi'i gomisiynu i ystyried ffyrdd y gellid cynyddu'r gyfradd o drosglwyddiadau byw.

**Camau gweithredu: Yr heddlu i ymchwilio'n fanwl i ddeall perfformiad o ran amseroedd ymateb i droseddau rhyw yn well.**

Yn ystod 2024–2025, roedd amser ymateb â blaenoriaeth yr heddlu i ddigwyddiadau troseddau rhyw, ar gyfartaledd, y tu allan i'r cytundeb lefel gwasanaeth o 60 munud, ar 64.8 munud. Fodd bynnag, roedd hyn yn is nag yn 2023–2024 pan oedd yn 74.6 munud.

O ran uniondeb data troseddau, yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin 2024 (pan ddechreuodd y broses newydd) a mis Mawrth 2024, cynhaliwyd cyfanswm o 15,331 o archwiliadau o gofnodi troseddau. Roedd 94% (14,379) o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn cydymffurfio.
O edrych yn benodol ar yr archwiliadau a gynhaliwyd ar ddigwyddiadau trais yn erbyn y person, y cydymffurfedd oedd 94% (4,271 o archwiliadau wedi'u cwblhau). Roedd 89.9% o'r archwiliadau a gynhaliwyd o dan y categori troseddau rhyw yn cydymffurfio (2,157 o archwiliadau wedi'u cwblhau).

Nodwyd bod fframwaith dyfarnu cywirdeb data trosedd y Swyddfa Gartref yn ystyried bod canlyniad archwiliad o 90%–94.9% yn 'broses gadarn ar y cyfan, ond bod angen rhai gwelliannau'. Yn gyfatebol i'r gwelliannau a wnaed o ran cofnodi troseddau, roedd gwelliant enfawr hefyd yn amlwg o ran cydymffurfedd yr heddlu â'r safon genedlaethol cofnodi troseddau (amseroldeb cofnodi troseddau o fewn 24 awr). Dim ond ers mis Ionawr 2024 yr oedd data cydymffurfedd y safon genedlaethol cofnodi troseddau wedi'u casglu'n gywir, felly nid oedd cymhariaeth â'r un cyfnod y llynedd ar gael. Fodd bynnag, dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro y gellid gweld gwelliannau sylweddol ers mis Medi 2024. Nodwyd bod rhaid rhoi sylw i'r cysylltiad cynhenid rhwng cofnodi troseddau cywirdeb data trosedd ac amseroldeb y safon genedlaethol cofnodi troseddau.

Cyfanswm y troseddau a gofnodwyd dros amser, gan gymharu'r ffigurau o 36,693 yn 2023–2024 a 38,071 yn 2024–2025. Nodwyd y gellid gweld cynnydd o 1,378 o droseddau. Nodwyd bod rhaid ystyried pwysigrwydd y newid mewn rheolau cyfrif, deddfwriaeth a chynnydd mewn cywirdeb data troseddu wrth edrych ar nifer y troseddau dros amser.

Ar y dyddiad echdynnu (20 Mehefin 2025) roedd cyfanswm o 5,535 o ymchwiliadau yn mynd rhagddynt. O ran y canlyniadau troseddau cyffredinol a gymhwyswyd yn ystod 2023–2024 a 2024–2025, roedd y data'n dangos cynnydd rhwng 6.98% ac 8.3% o ran y gyfradd gyhuddo (canlyniad 1) a chynnydd rhwng 14.41% ac 16.27% yn y gyfradd o ganlyniadau cadarnhaol (canlyniadau 1 i 8 yn gynwysedig).

Nodwyd bod canlyniadau mwy llwyddiannus i'w cael yn ardal Heddlu Dyfed-Powys o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y gyfradd gynyddol yn awgrymu bod Heddlu Dyfed-Powys yn llwyddiannus o ran gwella ansawdd cyfiawnder.

Yn ystod 2023–2024 cofnodwyd cyfanswm o 15,612 o ddigwyddiadau o'i gymharu ag 16,089 (+477), a gofnodwyd yn 2024–2025.
Y gydymffurfedd â'r safon genedlaethol cofnodi troseddau ar gyfer cofnodi troseddau cam-drin domestig yn amserol yn ystod y cyfnod archwilio cywirdeb

data troseddu (Mehefin 2024–Mawrth 2025) oedd 95.4%, gydag 1,225 o archwiliadau wedi'u cynnal.

Cofnodwyd cyfanswm o 1,763 o droseddau rhyw yn 2024–2025. Roedd hyn yn gynnydd o'r 1,455 a gofnodwyd yr un cyfnod y llynedd. Y gydymffurfedd â'r safon genedlaethol cofnodi troseddau ar gyfer cofnodi troseddau rhywiol yn amserol yn ystod 2024–2025 oedd 58.1%. Ar y dyddiad echdynnu (20 Mehefin 2025) roedd 822 o ymchwiliadau i droseddau rhywiol yn mynd rhagddynt, ac roedd 406 ohonynt wedi bod ar agor ers dros 180 o ddiwrnodau. Cafwyd trafodaeth am berfformiad mewn achosion o gam-drin domestig a thrais rhywiol, a dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro fod yr heddlu wedi cynnal archwiliad manwl chwe mis yn ôl i gyfraddau cyhuddo troseddau rhywiol, a bod cynllun ar y gweill i wirio a phrofi archwiliadau yn y dyfodol i sicrhau y câi achosion eu dyrannu yn briodol.

Bu'r bwrdd yn trafod troseddau meddiant ar gyffuriau a masnachu cyffuriau. Cofnodwyd cyfanswm o 1,487 o droseddau meddiant cyffuriau yn 2024–2025. Roedd hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r 1,316 o droseddau a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Ar y dyddiad echdynnu (20 Mehefin 2025) roedd 134 o ymchwiliadau meddiant cyffuriau yn mynd rhagddynt, ac roedd 26 ohonynt wedi bod ar agor ers dros 180 o ddiwrnodau. Wrth archwilio canlyniad y cyhuddiad (canlyniad 1) a datrysiad cymunedol (canlyniad 8) dros amser, gellid gweld newid clir, yn unol â'r diweddariad i bolisi cyffuriau'r heddlu, gan annog y defnydd o ddatrysiadau cymunedol ac atgyfeiriadau i'r prosiect datrysiad troseddau cyffuriau y tu allan i'r llys.

Cofnodwyd 319 o droseddau masnachu cyffuriau yn 2024–2025. O'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, roedd hyn yn gynnydd o 68 o droseddau a gofnodwyd. Ar y dyddiad echdynnu (20 Mehefin 25) roedd 150 o ymchwiliadau masnachu cyffuriau yn mynd rhagddynt, ac roedd 85 ohonynt wedi bod ar agor ers dros 180 o ddiwrnodau.

Yn ystod 2024–2025, wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod, roedd cyfanswm o 138 o droseddau mewnforio ac allforio, o'i gymharu â'r 70 trosedd a gofnodwyd yn 2023–2024. Nodwyd ei bod yn bwysig nodi nad oedd pob heddlu yn cofnodi'r troseddau hyn i'r un safon â Heddlu Dyfed-Powys. Byddai'r heddlu yn sicrhau bod troseddau 'parseli cyflym' yn cael eu cofnodi yn unol â'r rheolau cyfrif, gan ddangos y bygythiad a oedd yn effeithio ar gymunedau yn ardal yr heddlu.

Oherwydd natur y ffordd y câi troseddau mewngludo ac allgludo eu nodi, roedd yn anodd iawn sicrhau cyhuddiad. Roedd yr heddlu'n parhau i gofnodi'r troseddau hyn, ond byddai'n rhaid rhoi sylw i sut y byddent yn effeithio ar ein cyfraddau canlyniadau cyffredinol. Roedd hyn yn bwysig i'w nodi wrth fyfyrio ar ddata cenedlaethol.

Bu'r bwrdd yn trafod effaith Ymgyrch Scotney yn ardal yr heddlu.

**Camau gweithredu: Rhannu proffil y farchnad gyffuriau â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

Bu’r bwrdd yn trafod y meysydd blaenoriaeth ar gyfer yr heddlu, gan gynnwys siop-ladrad o fewn ardal yr heddlu, a nifer y digwyddiadau, y ffactorau a oedd yn arwain at siop-ladrad gan unigolion, ac atgyfeiriadau i’r cynllun dargyfeirio.

Yn ystod 2024–2025, cofnodwyd 2,037 o droseddau siop-ladrad. Roedd hyn yn ostyngiad o 7 o’i gymharu â’r un cyfnod y llynedd.

Nodwyd bod gostyngiad amlwg i’w weld rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Chwefror 2025. Cynhaliwyd dadansoddiad o’r cyfnod hwn, ond ni welwyd unrhyw duedd amlwg i gyfrif am y gostyngiad. Ar y dyddiad echdynnu (20 Mehefin 2025) roedd 243 o ymchwiliadau siop-ladrad yn mynd rhagddynt, ac roedd 21 ohonynt wedi bod ar agor ers dros 180 o ddiwrnodau.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl Dros Dro yr wybodaeth ddiweddaraf ar strategaeth yr heddlu i fynd i’r afael â siop-ladrad.

**Camau gweithredu: Canolbwyntio ar siop-ladrad ymhen amser.**

Gellid gweld gostyngiad yn y gyfradd gyhuddo (canlyniad 1) a datrysiadau cymunedol (canlyniad 8) wrth gymharu cyfnodau blynyddoedd ariannol.

Bu’r bwrdd yn ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch ymgysylltu â’r gymuned gan dimau plismona ac atal bro, a’r amrywiol weithgareddau ymgysylltu â’r gymuned misol a chwarterol y dylai timau plismona ac atal bro fod yn eu cwblhau. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â mynychu cyfarfodydd cynghorau tref a chymuned lleol.

Bu’r bwrdd yn trafod nifer y swyddogion o dimau plismona ac atal bro a roddwyd ar ddyletswyddau eraill, a chyfanswm yr oriau a atgyfeiriwyd. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i ddeall ymhellach y rheswm dros roi swyddogion ar ddyletswyddau eraill, gan ddarparu’r gallu i herio unrhyw bolisi allanol awdurdodedig.

**Camau gweithredu: Yr Heddlu i ystyried deall lefelau’r swyddogion o dimau plismona ac atal bro a roddir ar ddyletswyddau eraill.**

Nodwyd bod yr heddlu, yn ddiweddar, wedi adnewyddu ei gontract gydag Opinion Research Services (ORS), cwmni ymchwil gymdeithasol annibynnol a chwmni cymdeithas ymchwil y farchnad, i gynnal arolygon o foddhad dioddefwyr. Roedd ORS wedi gweithio ar ran yr heddlu, gan arolygu dioddefwyr i fesur lefelau bodlonrwydd a nodi cyfleoedd i wella gwasanaethau, ers 2023 trwy gyfweliadau ffôn.

Bu’r bwrdd yn trafod yr arolygon mewnwelediad dioddefwyr a’r gwaith sicrhau safonau.

Roedd tîm peilot archwilio a sicrwydd canolog wedi’i sefydlu yn yr Uned Gwella Gwasanaethau, ac roedd y tîm hwn yn cynnal yr archwiliad hwn i adolygu a gwerthuso perfformiad Heddlu Dyfed-Powys ac ymchwiliadau effeithiol i

fyrgleriaeth, lladrad, dwyn, troseddau rhyw eraill, trais yn erbyn y person, a throseddau cerbydau, ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Bob mis byddai'r Tîm Archwilio a Sicrwydd Canolog yn archwilio maint sampl ystadegol dibynadwy o droseddau a ddewiswyd ar hap, gan ganolbwyntio ar wahanol fathau o droseddau bob mis. Roedd cyfanswm o 747 o droseddau wedi cael eu harchwilio hyd at 16 Mai 2025 (rhwng 31 Ionawr 2025 ac 16 Mai 2025).

## b) Perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol

Bu'r bwrdd yn ystyried y cyflwyniad ynghylch perfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol. Nod y mesurau troseddu a phlismona cenedlaethol oedd helpu i ganolbwyntio ymdrech ar flaenoriaethau cenedlaethol allweddol, caniatáu mesur perfformiad a helpu i ddangos gwerth am arian mewn plismona. Roedd yr adroddiad ar fesurau procsi yr heddlu ar gyfer y 12 mis diweddaraf (Mai 2024–Ebrill 2025) (oni nodir yn wahanol). Y cyfnod amser ar gyfer y set ddata gwaelodlin* oedd rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mehefin 2019.

Bu'r bwrdd yn trafod y ffigurau ynghylch lleihau llofruddiaethau a lladdiadau eraill, gyda 4 rhwng mis Mai 2024 a mis Ebrill 2025 (4 o'i gymharu a 7) o'r gwaelodlin*.

Bu'r bwrdd yn trafod yr wybodaeth a ddarparwyd ynghylch lleihau troseddau yn y gymdogaeth.

- Gostyngiad o 22.3% mewn bwrgleriaeth (preswyl) – gwaelodlin: 1,063 o'i gymharu ag 826 yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2025.
- Cynnydd o 39% mewn dwyn oddi ar unigolion – gwaelodlin: 86 o'i gymharu ag 141 yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2025.
- Gostyngiad o 43.8% mewn dwyn o gerbydau – gwaelodlin: 562 o'i gymharu â 288 yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2025.
- Cynnydd o 65.1% mewn lladrad (personol) – gwaelodlin: 63 o'i gymharu ag 104 yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2025.
- Cynnydd o 317.9% mewn lladrad cerbydau – gwaelodlin: 39 o'i gymharu ag 163 yn y 12 mis hyd at fis Ebrill 2025.

Gofynnodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a oedd unrhyw arwydd y byddai'r Llywodraeth newydd yn cadw'r mesurau perfformiad cenedlaethol presennol. Atebodd y Prif Gwnstabl Dros Dro nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach wedi bod ynglŷn â hyn.

Cwestiynodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu y ffigurau lladrad a dwyn oddi ar unigolyn yn ddiweddar yn ardal Sir Gaerfyrddin. Dywedodd y Dirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro bod tueddiadau a themâu a oedd yn ymwneud â chategorïau troseddau cymdogaeth yn cael eu trafod yng nghyfarfod wythnosol y Prif Gwnstabl Cynorthwyol.

Bu’r bwrdd yn trafod y ffigurau stopio a chwilio yn yr adroddiad.

- Cafwyd 3,594 o achosion stopio a chwilio mewn 12 mis hyd at fis Ebrill 2025, sef cyfradd ganfod o 27.7.
- Gwaelodlin stopio a chwilio*: 2,853 o achosion stopio a chwilio wedi’u cyflawni, sef cyfradd ganfod o 39%.

Nodwyd bod hwn yn gynnydd o 25.9% o ran maint, o’i gymharu â’r gwaelodlin, a gostyngiad o 28.9 o ran y gyfradd ganfod o’i gymharu â’r gwaelodlin.

## 4. Trosolwg o wasanaethau a gomisiynwyd a chyllid grantiau

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau drosolwg a chyflwyniad i’r bwrdd ar gomisiynu a chyllido. Darparodd y cyflwyniad grynodeb o’r flwyddyn ddiwethaf ar ddiwedd 2024-2025.

Rhannwyd trosolwg o ffeithlun â’r bwrdd ynghylch holl wasanaethau’r comisiynydd.

Dywedodd Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaethau Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu bod yr heddlu’n cael arian ar gyfer Braenaru’r Llys Teulu, sef darparwr gwasanaethau cam-drin domestig ar wahân a oedd yn rhan o’r Llys Teulu, a allai gynorthwyo dioddefwyr a phlant yn benodol i lywio proses y Llys Teulu.  Roedd y cyfarfod perfformiad cyntaf wedi’i drefnu ar gyfer 10 Gorffennaf a byddai diweddariadau’n cael eu rhannu mewn cyfarfodydd dilynol o’r Bwrdd Perfformiad Strategol.

O ran cynlluniau dargyfeirio ar gyfer troseddwyr, roedd y rhaglen CARA (rhoi rhybuddiad ar gyfer cam-drin mewn perthynas) yn fyw ac yn cymryd atgyfeiriadau. Nodwyd mai gwasanaeth oedd hwn ar gyfer troseddwyr cam-drin domestig risg isel a oedd yn droseddwyr tro cyntaf, a bod cymorth yn cael ei ddarparu i’r teulu yn dilyn y digwyddiad. Nodwyd bod trafodaethau’n parhau gyda’r Swyddfa Gartref ynghylch y rhaglen Drive a oedd wedi’i hanelu at droseddwyr risg uchel a oedd yn achosi niwed mawr.

Darparwyd trosolwg o’r gwariant comisiynu ar gyfer 2024–2025 i’r bwrdd. Nodwyd bod oddeutu 70% o’r gwariant yn canolbwyntio ar y dioddefwr, a 30% ar y troseddwr.

**Camau gweithredu: Prif swyddogion i ystyried sut y dylid ystyried comisiynu yn y broses gynllunio o fewn Datganiad Rheoli’r Heddlu a’r cylch cynllunio strategol.**

Dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro ei fod yn gobeithio gweld pob prif arolygydd, uwcharolygydd a phennaeth adran yn ymgymryd â chwrs arweinyddiaeth a rheoli newid yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**Camau gweithredu: Manylion yr hyfforddiant Rheoli Newid i'w rhannu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

Dechreuodd gwasanaeth cymorth stelcio arbrofol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth risg uchel ar 1 Medi 2024. Roedd yn cael ei redeg gan Paladin. Rhwng 1 Medi a 31 Mai, bu cyfanswm o 35 o atgyfeiriadau. Gwnaed 23 o'r rhain gan Heddlu Dyfed-Powys, gyda'r gweddill yn cael eu gwneud gan wasanaethau cam-drin domestig ac iechyd, ynghyd â hunanatgyfeiriadau.
Cost y cynllun peilot 12 mis oedd £38,670 ac yr oedd cynnig i ymestyn y cynllun am 12 mis arall.

Cynhaliwyd gwasanaeth cymorth arbrofol i ddioddefwyr achosion ffyrdd rhwng mis Mehefin 2023 a mis Mai 2025 mewn partneriaeth â Brake. Gwnaed 42 o atgyfeiriadau yn ystod 2024–2025. Byddai gwasanaeth newydd yn dechrau ar 1 Gorffennaf wedi'i ddarparu gan Cymorth i Ddioddefwyr. Byddai hwn yn wasanaeth ar y cyd yn cwmpasu ardal Heddlu Dyfed-Powys ac ardal Heddlu De Cymru, a'r gost flynyddol fyddai £48,000.

Darparwyd trosolwg o gyllid grant allanol yn y cyflwyniad ynghylch cyllid ar gyfer mannau â risg uchel o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, Strydoedd Saffach a'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Dyrannwyd y cyllid ar gyfer mannau â risg uchel o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r heddlu a phob un o'r pedair ardal awdurdod lleol o fewn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Enw gweithgaredd yr heddlu a oedd yn rhan o'r gronfa hon oedd Ymgyrch Ivydene. Cofnodwyd dros 19,000 awr o weithgarwch patrolio cyfun gan yr heddlu a phartneriaid awdurdod lleol yn ystod 2024–2025. Roedd y ffigur hwn yn sylweddol uwch na'r gofyniad lleiaf o 9,000–13,500 awr a bennwyd gan y Swyddfa Gartref.

Roedd hwn yn gyflawniad sylweddol gan bob partner o ystyried yr oedi a fu wrth gychwyn y gweithgarwch hwn. Er gwaethaf ymdrechion i sicrhau bod y dyraniad cyllid wedi'i wario'n gyfan gwbl yn ystod 2024–2025, cofnodwyd tanwariant o £179,197.54 ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd hyn yn cynrychioli 18% o gyfanswm y gronfa a ddyrannwyd. Cofnododd 4 allan o 5 partner danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Cyfanswm tanwariant yr heddlu oedd £128,437.59. Nodwyd bod gwersi wedi'u dysgu, a bod strwythurau wedi'u cyflwyno i sicrhau bod arian a ddyrennid drwy'r Gronfa Ardaloedd â Phroblemau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ddiwygiedig yn cael ei ddefnyddio'n llawn yn 2025–2026.

Roedd dyraniad cyllid Strydoedd Saffach 5 wedi'i wario yn llawn yn ystod 2024–2025, sef £354,999.96.
Roedd y prosiectau yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd Heddlu Dyfed-Powys, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chyngor Sir Penfro wedi cael cyllid ac wedi cyflawni eu prosiectau yn llwyddiannus. Daeth y cyllid hwn i ben ar 31 Mawrth 2025. Roedd y Swyddfa Gartref bellach wedi cau'r gronfa hon.

Nodwyd bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi dyfarnu £346,967.84 mewn cyllid grant a rhoddion yn ystod 2024–2025.

- Dyrannwyd 37% i'r heddlu.
- Dyrannwyd 46% i sefydliadau cymunedol.
- Dyrannwyd 17% ar gyfer ymrwymiadau plismona rhanbarthol a/neu Gymru gyfan.

## 5. Unrhyw fater arall

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb o'r camau gweithredu o gyfarfod 7 Gorffennaf 2025 | I'w symud ymlaen gan |
|---|---|---|
| SPB014 | Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu i roi adborth ar y cam gweithredu a godwyd gan y Panel Heddlu a Throseddu parthed y broses ar gyfer swyddogion cefnogi cymunedol yr heddlu sydd am gael mynediad i gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu. | SCHTh |
| SPB015 | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol yr heddlu i gysylltu â'r Dirprwy Prif Gwnstabl ynghylch cynnal arolygon o gynghorau cymuned i geisio deall lefelau hyder ar hyn o bryd ac ymhen chwe mis. | Yr Heddlu |
| SPB016 | Prif swyddogion i geisio eglurder ynghylch canslo cyfarfodydd diweddar yr asesiad o'r effaith ar ddiogelu data yn yr heddlu. | Yr Heddlu |
| SPB017 | Amserlen proses recriwtio ar gyfer Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu i'w darparu i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Yr Heddlu |
| SPB018 | Adroddiadau perfformiad uniongyrchol a blaenoriaethol ar gam-drin domestig i'w rhannu â'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Yr Heddlu |
| SPB019 | Yr heddlu i ymchwilio'n fanwl i ddeall perfformiad o ran amseroedd ymateb i droseddau rhyw yn well. | Yr Heddlu |
| SPB020 | Rhannu proffil y farchnad gyffuriau â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Yr Heddlu |
| SPB021 | Canolbwyntio ar siop-ladrad ymhen amser. | Yr Heddlu |
| SPB022 | Yr Heddlu i ystyried deall lefelau'r swyddogion o dimau plismona ac atal bro a roddir ar ddyletswyddau eraill. | Yr Heddlu |
| SPB023 | Prif swyddogion i ystyried sut y dylid ystyried comisiynu yn y broses gynllunio o fewn Datganiad Rheoli'r Heddlu a'r cylch cynllunio strategol. | Yr Heddlu |
| SPB024 | Manylion yr hyfforddiant Rheoli Newid i'w rhannu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu. | Yr Heddlu |

DIWEDD